

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD MAWRTH 2021
29 MAWRTH 2021 7.30 o bell drwy gyfrwng fideo

1. Presennol

Richard Jones, Elin Jones, Dafydd Watts, Glyn Griffiths

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Datgan Diddordeb

Dim

3. Ymddiheuriadau

Dion Roberts, Eleri Owen, Llio Griffiths

4. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 1 Mawrth 2021

Cynnig: Nia Povey

Eilio: Elin Jones

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Anghenion Tai Lleol a Deiseb Garreg Frech

Mae adroddiad anghenion tai Penrhyndeudraeth wedi ei dderbyn gan yr Hwylusydd Anghenion Tai Gwledig, ac maent wedi egluro eu bod nhw am wybod sut mae Cyngor Cymuned Llanfrothen yn teimlo am ddiwallu anghenion Penrhyn yn Llanfrothen.

Mae yna alw mawr ym Mhenrhyndeudraeth am dai, ac mae'n anodd diwallu'r angen yma ym Mhenrhyndeudraeth oherwydd daearyddiaeth yr ardal.

Cytunwyd i gael cyfarfod yn fuan efo Cynefin ac Adra, a gofyn beth fyddai oblygiadau ystyried anghenion Penrhyndeudraeth fel rhan o anghenion Llanfrothen.

5.2 13 Garreg Frech

Mae aelod o'r cyhoedd yn fodlon ysgrifennu at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i wneud cwyn yn erbyn Cyngor Gwynedd am beidio â gweithredu parthed 13 Garreg Frech.

Bydd y Clerc yn cysylltu â'r person yma er mwyn bwrw ymlaen efo'r gwyn.

5.3 Y Ganolfan

Mae Arloesi Gwynedd Wledig yn gofyn am gymorth ar gyfer darganfod lleoliadau gwag y medrir eu defnyddio ar gyfer amrywiol ddefnydd, e.e. ar gyfer swyddfeydd.

Gofynnwyd i'r Clerc ddanfôn atynt, rhag ofn y byddai'r Ganolfan yn addas.

Derbyniwyd adroddiad gan adran eiddo Cyngor Gwynedd am gyflwr Y Ganolfan, oedd yn nodi rhai diffygion, ond dim byd yr oedd angen gweithredu arno ar fyrder.

Cytunwyd i ofyn i Snowdonia Fire Protection newid y ddau wedi cynnal olau tân sy'n ddiffygiol. Roeddynt wedi cynnig amcan bris o £100-£150 am wneud y gwaith.

Cytunwyd fod angen sicrhau fod Y Ganolfan yn barod ar gyfer etholiadau Mai 2021 a chodi ffi o £100.

Ysgrifennodd y Clerc at adran drethi Cyngor Gwynedd unwaith eto, o ran atebolrwydd presennol a gorffennol y cyngor cymuned i dalu treth fusnes am Y Ganolfan, ond parheir i ddisgwyl ymateb.

5.4 Polisiâu'r Cyngor Cymuned

Mae'r Clerc a'r Cadeirydd wedi trafod arfarniad y Clerc ac wedi llofnodi'r ddogfen.

Mae copi o'r arfarniad wedi mynd i'r Cynghorydd Dafydd Watts a'r Cynghorydd Richard Jones fel aelodau'r is-bwyllgor gwerthuso.

Cytunwyd i ad-dalu'r Clerc swm o £1730 o gyflog am weithredu cyfarfod bob mis yn ystod 2020/21. Mae'r swm yma wedi ei gyfrifo am waith ar gyfer 6 cyfarfod ychwanegol, (40.055 o'r oriau/cyflog) = £1,519 ac am x2

o gyswllt efo cynghorwyr ac asiantaethau lleol, (5.57% o'r oriau /cyflog) = £211.00

5.5 Ynni Hydro Croesor

Cafwyd ymateb gan Balfours am ddyrannu buddiant cymunedol gan Ynni Hydro Croesor. Maent yn dweud mai newydd ei sefydlu mae Ynni Hydro Croesor, a'i bod hi yn rhy fuan i wybod faint o elw fydd yn ei wneud, ond eu bod yn cytuno mewn egwyddor i gynnig budd cymunedol i'r Cyngor cymuned

Mae Balfours yn dweud na chawsant gymhorthdal cyhoeddus o gwbl, a buasent yn falch o gael gwybod am ba gymhorthdal cyhoeddus y cyfeiriwyd ato.

Os na fu cymhorthdal cyhoeddus penodol, yna mae'r cynllun Hydro wedi cael budd o'r Feed in Tariff sy'n cael ei dalu gan y trethdalwyr.

Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn gofyn beth fyddai'r cyngor cymuned yn debygol o'i wneud efo unrhyw arian budd cymunedol.

Bydd yn rhaid i'r Ymddiriedolwyr drafod y mater yn eu cyfarfod yn ystod mis Mai, ond yn y cyfamser maent wedi gosod rhyw ragamcanion posibl o'r budd cymunedol.

Cytunodd y Cynghorydd Dafydd Watts lunio llythyr e-bost fel ymateb i'r Ymddiriedolwyr ar gyfer trafodaeth yn eu cyfarfod fis Mai.

5.6 Croesffordd Wern

Mae Cyngor Gwynedd yn dweud fod y gwaith bellach wedi ei wneud o agor y ffos gan y perchennog tir ac mae Cyngor Gwynedd wedi agor y cylfyrty o dan y ffordd.

Doedd dim dŵr yn llifo pan bwrw glaw diwethaf, felly roedd pawb yn hapus fod y gwaith wedi ei wneud.

5.7 Rhestr Asedau

Mae'r rhestr asedau wedi ei ddiweddarau unwaith eto efo cost prynu a dyddiad prynu a lleoliad yr asedau yn unol ag argymhelliad yr archwiliwr allanol.

5.8 Llwybr Beicio a Cerdded Llanfrothen i Benrhyn

Cyngor Tref Penrhyndeudraeth yn hapus i gael cyfarfod er mwyn trafod y mater yma ymhellach. .

Gofynnwyd i'r Clerc geisio trefnu cyfarfod ar gyfer 19 Ebrill.

5.9 Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllaw Cynllunio Atodol Drafft Parc Cenedlaethol Eryri – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

Trafodwyd y mater yma, ond nid oedd sylwadau i'w cynnig.

6. Materion Ariannol

6.1 Cyflog Clerc Mawrth 2021 - £214.40

TWE £53.60

6.2 Anfoneb Snowdonia Fire & Security 28/02/21 £95.46

7. Gohebiaeth

7.1 Aelodaeth Un Llais Cymru 2021/22

Cytunwyd i ymaelodi efo Un Llais Cymru ar gyfer 2021/22 am gost o £84.00

8. Cynllunio

Dim

9. Materion Eraill

9.1 Llythyr Cyfoeth Naturiol Cymru i drigolion lleol

Danfonwyd llythyr gan Gyfoeth Naturiol Cymru at drigolion lleol, dyddiedig 10 Mawrth 2021.

Ni ddaeth llythyr at y cyngor cymuned, ac felly gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn iddyn nhw sicrhau eu bod yn gohebu gyda'r cyngor cymuned ac yn sicrhau fod y cyngor cymuned yn rhan o'r trafodaethau yn y dyfodol, ac yn gwneud yn siŵr fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn danfon copi o'r astudiaeth y maent yn ei wneud at y cyngor cymuned yn y gwanwyn.

9.2 Rheoliadau Ysmygu Newydd

Mae hi bellach yn anghyfreithlon i ysmygu mewn meysydd chwarae plant. Mae angen i'r rhai sy'n gyfrifol am feysydd chwarae osod arwyddion yn nodi hyn. Gam nad yw Cyngor Cymuned Llanfrothen yn gyfrifol am unrhyw faes chwarae, dos dim oblygiad i wneud unrhyw beth.

9.3 Cyfrif Banc

Mae'r Cynghorydd Nia Povey mewn cysylltiad efo cangen HSBC Porthmadog er mwyn diweddarau'r llofnodai ar y cyfrif, a rhoi ystyriaeth i fancio ar lein.

Mae angen i'r Cynghorydd Dafydd Watts a Glyn Griffiths arwyddo'r mandad hefyd. Gall eraill fod yn llofnodwyr hefyd.

Bancio ar lein - cael cyngor gan Un Llais Cymru os ydy hynny yn iawn. Holi'r banc a gofyn i un llais Cymru os ydyn nhw yn hapus.

<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf – cyfarfod o bell – 10 Mai 2021 am 7:30 yr hwyr.</p>
